# Canllaw Presenoldeb i Rieni/Gofalwyr

Mae`r ysgol a`r Awdurdod Addysg wedi ymrwymo i sicrhau canran presenoldeb uchel ar gyfer pob plentyn.

| Osy w presenoldeb eich plentyn yn ….. | Bydd eich plentyn wedi methu | Canllawiau Cenedlaethol |
|---|---|---|
| 95% | 9 diwrnod o ysgol | Rhagorol – y cyfle orau i lwyddo. |
| 90%-95% | 19 diwrnod ysgol | Boddhaol – mi fydd eich plentyn wedi methu gwersi pwysig. |
| 85% - 90% | 28 diwrnod ysgol | Achos o breeder – mae eich plentyn mewn perygl o dangyflawni. |
| 80%-85% | 38 diwrnod ysgol | Anfoddhaol – caiff hyn effaith negyddol ar addysg eich plentyn. Mae`n rhaid i`r ysgol ymateb, mewn partneriaeth a`r Swyddog Lles |
| O dan 80% | | Mae eich plentyn yn colli cyfle i gael addysg. Mae`n rhaid i`r ysgol ymateb, mewn partneriaeth a`r Swyddog Lles |

## Cofrestri Ysgol:

Bydd sesiwn cofrstru`r bore yn digwydd am 9:00. Gadewch i`r ysgol wybod am unrhyw absenoldeb erbyn hynny os gwelwch yn dda, unai drwy ebost neu drwy adael neges ar ein peiriant ateb. Mae o`n bwysig fod disgyblion yn cyrraedd erbyn 9:00 gan fod rhaid rhoi côd "hwyr" yn y system fel arall, heblaw fod yna eglurhad wedi ein cyrraedd.

## Gwyliau yn ystod tymor ysgol :

Mae o`n ofynnol bellach i rieni gyflwyno cais am ganiatâd gwyliau i`r plant yn ystod tymor ysgol. Gofynnir i rieni/gofalwyr gyflwyno ceisiadau o leiaf 4 wythnos o flaen llaw. Mae`r ffurflenni cais ar gael gan yr ysgol.

Wrth ystyried cais am wyliau yn ystod y tymor, ystyrir y canlynol:

1. Hanes presenoldeb blaenorol eich plentyn/plant
2. Cam addysg eich plentyn/plant
3. Unrhyw amgylchiadau eithriadol

Mae`r ysgol yn hysbysu`r rhieni o`r benderfyniad i gymeradwyo`r cais a'i peidio.

Gwerthfawrogwn eich cefnogaeth – mae pob diwrnod yn cyfri !

Mae copi o bolisi Presenoldeb yr ysgol ar gael ar ein gwefan